

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Ebrill 2022



# 1. Cefndir

## Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)<sup>1</sup> (y Bil) Llywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarllenid cyntaf ar 8 Mehefin 2021. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU.
2. Daeth y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ym mis Tachwedd 2021. Cyhoeddwyd y bydd cynnig cario drosodd yn cael ei ystyried ar 20 Ebrill 2022.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
4. Ar 22 Mehefin 2021, gosododd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>2</sup> (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.
5. Mae paragraffau 13 i 130 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru ar y pryd o'r darpariaethau yn y Bil yr oedd yn ystyried bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef cymalau 26 i 53 ac Atodlen 5.
6. Mae paragraffau 132 i 137 o'r Memorandwm yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil ar y pryd. Yn y Memorandwm, daeth y Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

*"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU er mwyn bwrw ymlaen, yn bennaf ar sail Prydain Fawr gyfan, â materion pwysig a phroffil uchel sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, yn enwedig lle y bydd y nodau hynny'n elwa ar weithredu mewn ffordd a fydd yn cael ei chydgysylltu â dulliau gweithredu'r gweinyddiaethau eraill."<sup>3</sup>*

---

<sup>1</sup> Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), fel y'i cyflwynwyd (Bill 13)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Mehefin 2021

<sup>3</sup> Memorandwm, paragraff 137

---

## Crynodeb o'n hadroddiad cyntaf

- 7.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm ar 19 Hydref 2021 (adroddiad cyntaf).<sup>4</sup>
- 8.** Mae paragraffau 16 i 26 yn ein hadroddiad cyntaf yn nodi'n fanwl ein hystyriaeth o'r Memorandwm.
- 9.** Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom gydnabod y gwahaniaeth mewn safbwyntiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymalau (ac Atodlenni) y Bil y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.
- 10.** Hefyd, fe wnaethom nodi bod y cymalau perthnasol yn y Bil at ddibenion y Memorandwm yn cynnwys pwerau cydredol plws.
- 11.** At hynny, gwnaethom drafod, yn fanwl, ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddeddfu ar gyfer Cymru yn y maes datganoledig hwn a'n pryderon ynghylch yr ymagwedd hon.
- 12.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys cyfanswm o dri chasgliad ffurfiol a dau argymhelliad.
- 13.** Ymatebodd y Gweinidog yn ffurfiol i'n hadroddiad ar y Memorandwm ar 24 Tachwedd 2021.<sup>5</sup>

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

- 14.** Ar 7 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidog Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol<sup>6</sup> (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil ar 16 a 18 Tachwedd 2021 yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae rhifau cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.<sup>7</sup>

---

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Hydref 2021

<sup>5</sup> Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 24 Tachwedd 2021

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Ionawr 2022

<sup>7</sup> Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus (Bill 195)

---

**15.** Yn dilyn ein hystyriaeth gychwynnol o Femorandwm Rhif 2 ar 7 Chwefror 2022, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 8 Chwefror yn mynegi pryderon ynghylch ansawdd Memorandwm Rhif 2 a diffyg eglurder ynghylch y wybodaeth a gyflwynwyd ynddo.<sup>8</sup>

**16.** Ar 3 Mawrth 2022, gosododd y Gweinidog fersiwn ddiwygiedig o Femorandwm Rhif 2<sup>9</sup> ac ysgrifennodd atom i gadarnhau bod y fersiwn flaenorol a osodwyd ar 7 Ionawr wedi'i thynnu'n ôl yn ffurfiol.<sup>10</sup>

**17.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn wreiddiol y dylai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 3 Mawrth 2022.<sup>11</sup> Ymestynnwyd y dyddiad cau wedi hynny i 17 Mawrth 2022<sup>12</sup> ac unwaith eto i 31 Mawrth 2022.<sup>13</sup>

## **Y wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru a'r gwelliannau a wnaed i'r Bil y ceisir cydsyniad ar ei gyfer ers cyhoeddi'r Memorandwm**

---

**18.** Ym mharagraffau 14 i 22 a 32 i 37 o Femorandwm Rhif 2, rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ers i'r Memorandwm gael ei osod gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2021.

**19.** Mae paragraffau 23 i 31 yn nodi'r diwygiadau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch. Mae'r Atodiad i Femorandwm Rhif 2 yn nodi'n fanwl y diwygiadau hyn.

**20.** Mae diwygiadau wedi'u gwneud i Rannau 1 i 4 o'r Bil ac Atodlenni 1 i 4 i'r Bil.

### **Newidiadau i Ran 1 o'r Bil (gan gynnwys Atodlenni 1 i 4)**

**21.** Mae Rhan 1 o'r Bil, sef cymalau 1 i 24 nawr, yn ymwneud â phrimatiaid. Mae Atodlenni 1 i 4 i'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â phrimatiaid.

---

<sup>8</sup> Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 8 Chwefror 2022

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Diwygiedig (Memorandwm Rhif 2), Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Mawrth 2022

<sup>10</sup> Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Mawrth 2022

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Ionawr 2022

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Chwefror 2022

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Mawrth 2022

---

**22.** Pan gafodd ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin, roedd y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â phrimatiaid yn gymwys i Loegr yn unig. O'r herwydd, nid oedd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer unrhyw rai o'r cymalau yn Rhan 1 yn flaenorol.

**23.** Yn y Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2021, dywedodd y Gweinidog:

*"Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, nid yw Rhan 1 o'r Bil (Primatiaid) yn gymwys i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r darpariaethau hyn gael eu hestyn fel ei bod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn cael pwerau mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr."*<sup>14</sup>

**24.** Ym mharagraff 15 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn nodi:

*"...mae Rhan 1 bellach yn gymwys i Gymru yn unol â chais Llywodraeth Cymru fel bod y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn cyfateb i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr."*

**25.** Ar dudalennau 4 i 11 a 14 i 16 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi'r gwelliannau a wnaed i Ran 1 o'r Bil ac Atodlenni 1 i 4 i'r Bil.

**26.** I grynhoi, mae rhai o'r gwelliannau allweddol a wnaed i Ran 1 o'r Bil (a'r Atodlenni sy'n mynd gyda'r Bil) yn golygu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â Gweinidogion Cymru:

- eu galluogi i gyflwyno is-ddeddfwriaeth yng Nghymru ynghylch gwahardd cadw primatiaid heb drwydded (cymal 1);
- mae'n ofynnol iddynt wneud rheoliadau sy'n pennu safonau trwyddedu ar gyfer rheoli a gofalu am brimatiaid (cymal 3);
- eu galluogi i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol o ran arfer eu swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Bil (cymal 20);
- eu galluogi i wneud rheoliadau i ddiwygio Rhan 1 o'r Bil fel ei bod yn gymwys i fathau eraill o anifail gwyllt (cymal 22).

**27.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

---

<sup>14</sup> Memorandwm, paragraff 133

*"Bydd cynnwys Cymru o fewn y Bil, fel y'i cyhoeddwyd, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynllun trwyddedu mewn perthynas â chadw primat mewn lleoliad domestig a rhoi'r pŵer i Awdurdodau Lleol allu gorfodi unrhyw ddeddfwriaeth lles anifeiliaid newydd yn unol â Deddf Lles Anifeiliaid 2006, sydd wedi'i datganoli'n llawn i Gymru.*

*Bydd cynnwys Cymru hefyd yn negyddu unrhyw wahaniaeth trwyddedu rhwng Cymru a Lloegr a gorfodi buddiannau unrhyw ofynion trwyddedu newydd ar hyd y ffiniau."<sup>15</sup>*

## **Newidiadau i Ran 2 o'r Bil**

**28.** Mae Rhan 2 o'r Bil, sef cymalau 25 i 39 nawr, yn ymwneud â chŵn sy'n ymosod ar dda byw neu'n eu poeni.

**29.** Yn y Memorandwm, dywedodd y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig ac, yn unol â hynny, bod angen diwygio Rhan 2 i adlewyrchu'r safbwynt hwn.<sup>16</sup>

**30.** Mae'r cymal a rifwyd yn flaenorol fel cymal 38 o'r Bil (rheoliadau o dan Ran 2) wedi'i ddileu o'r Bil ac mae'r cymal 38 newydd ei rifo (dehongliad cyffredinol, sef cymal 40 yn flaenorol) wedi'i ddiwygio i ychwanegu diffiniadau o "geirw wedi'u hamgáu" a "baeddod gwyllt wedi'u hamgáu", gan hefyd wneud newidiadau i'r diffiniad o "dda byw". Mae'r Gweinidog o'r farn bod y gwelliannau a wnaed i gymal 38 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â mater datganoledig.

**31.** Ym mharagraffau 17 i 20 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi bod ei chais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a oedd yn gofyn am welliannau i gymalau 37, 38, 50 a 51 i'r perwyl bod y pwerau'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, wedi cael eu gwrthod. Mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol:

*"...ymatebodd Ysgrifennydd Gwladol EFRA yn cadarnhau'r farn bod y darpariaethau yn Rhan 2 yn ymwneud â mater sydd wedi'i gadw yn ôl sef y cymal cadw ar 'gŵn peryglus a'r cŵn sydd allan o reolaeth' (paragraff 44 i Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru) ac nad yw wedi cytuno ar wneud gwelliannau i'r cymalau yn y ffordd y gofynnwyd iddo wneud (...)*

---

<sup>15</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 24, tudalen 4

<sup>16</sup> Memorandwm, paragraff 133

---

*Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu argymhell Senedd Cymru i wrthod y rhan o'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â Rhan 2: Cŵn sy'n Ymosod ar Dda Byw neu'n eu Poeni."*<sup>17</sup>

**32.** Yn ei llythyr atom ar 3 Mawrth 2022, dywedodd y Gweinidog:

*"...rwy'n dal i aros am ymateb gan Weinidog DEFRA ynghylch pam eu bod yn styried na allant roi pwerau yn y Bil mewn perthynas â'r diffiniad o dda byw sydd wedi'i ddatganoli i Gymru."*<sup>18</sup>

### **Newidiadau i Ran 3 o'r Bil**

**33.** Mae Rhan 3 o'r Bil, sef cymalau 40 i 49 nawr, yn gwneud darpariaethau eraill yn ymwneud ag anifeiliaid a gedwir.

**34.** Mae'r Gweinidog o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y gwelliannau a wnaed i gymalau 40, 42, 45, 46, 48 a 49.

**35.** I grynhoi, rhai o'r prif newidiadau i Ran 3 o'r Bil yw:

- bydd y gwelliannau a wneir i gymal 42 yn galluogi rheoliadau o dan adran 12(1) o *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006* i ddiwygio neu ddirymu offerynnau a wneir o dan adran 2(2) o *Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972* (Deddf 1972), a bydd yn galluogi rheoliadau o dan adran 13 o'r un *Ddeddf 2006* i wneud diwygiadau canlyniadol neu ddirymiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a wnaed o dan *Ddeddf 1972*;
- mae'r diwygiadau a wnaed i gymal 45 yn gwneud newidiadau i reoliadau<sup>19</sup> a wnaed gan Weinidogion Cymru yn 2011 ynghylch y fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol a lleihau nifer y cŵn, cathod a ffuredau a gaiff ddod i mewn i Brydain Fawr mewn cerbyd modur anfasnachol i dri;
- mae'r gwelliannau a wneir i gymal 46 yn ehangu'r pŵer i wneud rheoliadau fel y'u drafftiodd yn wreiddiol fel y caiff rheoliadau o'r fath gynnwys esemptiadau a chaiff wneud darpariaeth ynghylch trwyddedau;
- mae'r gwelliannau a wnaed i gymal 49 yn creu swyddogaethau cydredol newydd.

---

<sup>17</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraffau 18 a 20

<sup>18</sup> Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Mawrth 2022

<sup>19</sup> [Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol \(Cymru\) 2011](#)

---

**36.** O ran y swyddogaethau cydredol, ym mharagraffau 21 a 22 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi:

*"O dan Ran 3, mae Cymal 49 o'r Bil yn diffinio awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority"). Yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, pennwyd yn y cymal hwnnw (cymal 48 fel yr oedd bryd hynny) mai'r awdurdod cenedlaethol priodol ar gyfer Cymru at ddibenion rheoliadau Rhan 3 yw (1) Gweinidogion Cymru neu (2) yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu gyda chydyniad Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn creu swyddogaethau cydredol. (...)*

*Fel arfer, ni fyddai Llywodraeth Cymru am weld creu swyddogaethau cydredol newydd. Mae natur Cymal 41 (Allforio da byw) a Chymal 46 (Mewnforio cŵn, cathod a ffuredau) o'r fath fel bod dull gweithredu drwy Brydain Fawr gyfan yn debygol o gael ei ystyried yn briodol am resymau cysondeb ac ymarferoldeb er mwyn sicrhau dull unffurf o reoli allforio a mewnforio ar ffiniau. Mae'n bosibl y byddai cael dull gweithredu sy'n wahanol i Gymru, neu unrhyw ran arall o Brydain Fawr, yn achosi anawsterau i berchnogion/ceidwaid anifeiliaid ac asiantaethau gorfodi."*

### **Newidiadau i Ran 4 o'r Bil**

**37.** Mae Rhan 4 o'r Bil, sef cymalau 50 i 55 nawr, yn gwneud darpariaethau cyffredinol.

**38.** Mae'r Gweinidog o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y gwelliannau a wnaed i gymalau 50, 52 a 53.

**39.** Mae cymal 50 wedi cael ei ddiwygio i ddarparu y caniateir i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth o Ran 1 a Rhan 3 o'r Bil fel y mae'n gymwys i Gymru, ar yr amod bod y ddarpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig y Senedd.

**40.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

*"Mae'r gwelliannau i Gymal 50 yn rhoi swyddogaethau cydredol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â swyddogaethau deddfwriaethol o dan Ran 3 (h.y. Cymalau 41 a 46) ac yn darparu bod pwerau awdurdodau datganoledig wedi'u cyfyngu drwy gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig."*



*Diffinnir awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") yng Nghymal 49 fel Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.*

*O ganlyniad, byddai angen i unrhyw reoliadau a wneir o dan gymalau 41 a 46 fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (sydd eisoes yn wir). Caniateir i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, ar yr amod bod y rheoliadau hynny o fewn cymhwysedd datganoledig Gweinidogion Cymru."<sup>20</sup>*

**41.** Mae cymal 52 yn cyflwyno darpariaeth newydd ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Bil, ar ôl ei ddeddfu.

**42.** Mae cymal 52 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau o dan y Bil, ac eithrio rheoliadau a wneir o dan gymal 53 (Cychwyn). Mae'n pennu'r offerynnau statudol, a wneir gan Weinidogion Cymru, y mae angen iddynt ddilyn y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (gweler cymal 52(9)). Dyma'r rheoliadau a wnaed o dan:

- cymal 3(1) neu (3)(b),
- cymal 22,
- Rhan 3, ac eithrio'r rhai a wnaed yn rhinwedd cymal 46(3)(c), neu
- cymal 50 sy'n diwygio, diddymu neu ddirymu darpariaeth a wneir gan ddeddfwriaeth sylfaenol neu brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

**43.** Mae cymal 52(10) yn cadarnhau y bydd unrhyw offeryn statudol arall a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n cynnwys rheoliadau yn dilyn y weithdrefn negyddol.

**44.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi mewn perthynas â chymal 52:

*Mae'n darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Bil (ac eithrio rheoliadau o dan gymal 53: Cychwyn) yn cynnwys hefyd pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd, darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed. O dan y Cymal hwn, pan fydd gan*

---

<sup>20</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 27, tudalen 13

*Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf, gallant arfer y pwerau uchod.*

*Mae'r gwelliannau hefyd yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau ac yn nodi, bod unrhyw reoliadau a wneir o dan Gymal 3(1) neu 3(3), (Safonau trwyddedu a gofynion eraill) 22 (pŵer i estyn Rhan 1), Rhan 3 (Darpariaethau eraill ynghylch Anifeiliaid a Gedwir) neu Gymal 50 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol) sy'n diwygio, diddymu neu ddirymu darpariaeth a wneir gan ddeddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn ddarostyngedig i weithdrefn Gadarnhaol Senedd Cymru. Gwneir yr holl reoliadau eraill o dan y Bil gan y weithdrefn negyddol."<sup>21</sup>*

**45.** Mae'r gwelliannau i gymal 53 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i gychwyn Rhan 1 o'r Bil mewn perthynas â Chymru.

**46.** Fel y nodir uchod ym mharagraffau 35 a 36, mae'r gwelliannau i gymal 49 o'r Bil yn creu swyddogaethau cydredol. Ym mharagraff 21 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi:

*"O ganlyniad, gofynnodd Llywodraeth Cymru am 'eithriadau' i'r angen am gydsyniad Gweinidog y Goron pe bai Senedd Cymru'n cynnig dileu pwerau cydredol mewn Bil Senedd Cymru yn y dyfodol. Mae cymal 51 yn gymal newydd sy'n rhoi'r 'eithriad' gan ddiwygio Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn datgymhwyso cyfyngiadau penodol yn yr Atodlen honno mewn perthynas â swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Bil. Mae'r darpariaethau yng Nghymal 51 yn ymwneud â materion a gedwir yn rhinwedd (Paragraff 7 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen cydsyniad mewn perthynas â Chymal 51."<sup>22</sup>*

## **Diweddariad ar safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm**

**47.** Ym mharagraff 36 a 37 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Yn amodol ar ganlyniad terfynol y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU er mwyn bwrw ymlaen, yn bennaf ar sail Prydain Fawr gyfan, â*

---

<sup>21</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 27, tudalen 14

<sup>22</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 22

---

*pholisiau pwysig a phroffil uchel sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, yn enwedig lle bydd y nodau hynny'n elwa ar weithredu mewn ffordd a fydd yn cael ei chydgysylltu â llywodraethau eraill ar orfodi.*

*Bydd y Bil hefyd yn rhoi eglurder i'r Llysoedd a'r cyhoedd ac mae'n gyfle amserol i fwrw ymlaen â'r newidiadau polisi a deddfwriaethol pwysig hyn."*

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

48. Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 21 Mawrth 2022.<sup>23</sup>

49. Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 28 Mawrth 2022.<sup>24</sup>

50. Dylid darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hadroddiad cyntaf.

### Ein barn ni

#### Sylwadau cyffredinol

---

51. Nodwn safbwynt y Gweinidog fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 2 mewn perthynas â diwygiadau a wnaed i'r Bil sy'n berthnasol i ddiben datganoledig.

**Casgliad 1.** Er ein bod yn cytuno ag asesiad y Gweinidog a'r ffaith bod yr holl gymalau a gwelliannau a restrir ym Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â diben datganoledig, rydym hefyd o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 51 o'r Bil.

52. Nodwn hefyd resymau'r Gweinidog dros wneud darpariaeth bellach i Gymru yng nghymalau 1 i 24, 38, 40, 42, 45, 46, 48 i 50, 52, a 53, ac Atodlenni 1 i 4 a mynegir ein barn yn fanylach yn y paragraffau a ganlyn.

53. Yn ein hadroddiad cyntaf, mynegwyd pryderon gennym ynghylch dull y Gweinidog o ddefnyddio Bil y DU i wneud darpariaeth ar gyfer Cymru. Wrth wneud hynny, fe wnaethom dynnu sylw at bryderon tebyg a godwyd gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd pan archwiliodd femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau eraill y DU sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid yn y Bumed Senedd.

54. Yng nghasgliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom dynnu sylw at bryderon a godwyd gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, a'i fod yn siomedig bod Llywodraeth Cymru a oedd newydd ei ffurfio wedi parhau â thuedd is-optimaidd o ddibynnu ar Lywodraeth y DU a Senedd y DU i ddeddfu yn y maes polisi blaenoriaeth hwn. O ran y mater hwn, nid yw ein safbwynt wedi newid.

55. Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom nodi hefyd, pan gafodd ei gyflwyno i Senedd y DU, bod Llywodraeth y DU o'r farn bod tair o'r pedair rhan i'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn

---

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Mawrth 2022

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 28 Mawrth 2022

---

maes datganoledig, a bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gwelliannau i'r Bil i'r perwyl bod yr unig ran arall sy'n weddill – Rhan 1 – yn cael ei hymestyn i fod yn gymwys yng Nghymru.

**56.** Ym mharagraff 21 ac yng nghasgliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom dynnu sylw at ein pryderon o ran dull y Gweinidog o ddefnyddio Bil y DU i raddau mor helaeth, yn enwedig mewn perthynas ag osgoi gweithdrefnau craffu'r Senedd. Fe ddaethom i'r casgliad bod rhesymeg y Gweinidog a nodir yn y Memorandwm yn anffodus. O ran y mater hwn hefyd, nid yw ein safbwynt wedi newid.

**57.** Ym mharagraff 4 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi: "Nid oedd yn bosibl gosod y Memorandwm hwn o fewn y pythefnos arferol a ragnodir yn [Rheol Sefydlog 29], oherwydd maint a chymhlethdod y gwelliannau a gyflwynwyd".

**58.** Mae Rheol Sefydlog 29.2 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fel arfer heb fod yn hwyrach na dwy wythnos ar ôl i ddarpariaethau perthnasol gael eu cynnig mewn Bil neu gan welliant. Yn yr achos hwn, mae wedi cymryd llawer mwy o amser na hyn.

**Casgliad 2.** Cafodd y gwelliannau a nodir ym Memorandwm Rhif 2 eu cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Tachwedd 2021. Ni chafodd fersiwn o Femorandwm Rhif 2 sy'n addas ar gyfer craffu arni ei gosod gerbron y Senedd tan 3 Mawrth 2022. Nid yw hyn yn dderbyniol. Mae wedi amharu ar allu Aelodau o'r Senedd i graffu ar y gwelliannau mewn modd amserol ac ystyrlon.

**59.** Byddwn yn tynnu sylw Pwyllgor Busnes y Senedd at ein pryderon.

### **Sylwadau penodol yn ymwneud â gwelliannau a wnaed i Ran 1 o'r Bil (a'r Atodlenni sy'n mynd gyda'r Bil)**

---

**60.** Fel y nodir uchod, nodwn fod y Gweinidog, unwaith eto, wedi gofyn i fwy o ddarpariaethau yn y Bil, sef Rhan 1 ac Atodlenni 1 i 4, gael eu gwneud yn gymwys i Gymru yn ystod y cyfnodau diwygio wrth i'r Bil fynd drwy Senedd y DU.

**61.** Nid ydym am wneud sylw ar rinweddau polisi – neu fel arall – cymhwyso Rhan 1 o'r Bil i Gymru. Fodd bynnag, rhaid i ni ailadrodd ein pryderon ynglŷn â dull y Gweinidog o ddefnyddio Bil y DU i ddeddfu yn un o feysydd polisi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

**62.** Mae hyn yn arbennig o anfoddhaol gan fod cymal 22 yn rhoi pŵer galluogi Harri VIII i Weinidogion Cymru fel y gellir diwygio Rhan 1 o'r Bil drwy reoliadau i ymestyn ei gymhwysiad i wahanol anifeiliaid gwyllt heb rôl i'r Senedd wrth benderfynu a oes angen estyniad o'r fath yn y polisi.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bo modd a chyn y cynhelir dadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion llawn am sut y gellir defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 22 o'r Bil, ac a yw Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried cymhwyso'r ddeddfwriaeth hon i anifeiliaid gwyllt eraill.

**63.** Byddai'r pwerau y mae'r Gweinidog wedi gofyn amdanynt yn Rhan 1 o'r Bil yn darparu ar gyfer cynllun trwyddedu ar gyfer cadw primatiaid yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog hefyd wedi llwyddo i sicrhau'r pŵer i gychwyn cymhwyso Rhan 1 yng Nghymru. O'n profiad ni, nid yw ceisio sicrhau pwerau cychwyn o'r fath yn amcan sydd wedi bod yn gyson ar draws Gweinidogion Cymru gan eu bod wedi dewis optio i mewn i Filiau'r DU. Gweler, er enghraifft, mynd ar drywydd darpariaethau, a gwelliannau i ddarpariaethau, yn y Bil Diogelwch Adeiladau.<sup>25</sup>

**64.** Fodd bynnag, drwy sicrhau'r gallu i gychwyn y darpariaethau hyn yng Nghymru, yn ôl pob tebyg ar adeg y mae'r Gweinidog yn ei dewis, mae cyfiawnhad y Gweinidog dros fynd ar drywydd y darpariaethau hyn mewn Bil y DU (i sicrhau bod gweithdrefnau gorfodi ledled Cymru a Lloegr wedi'u halinio) yn cael ei leihau. Os bydd Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru yn cychwyn darpariaethau Rhan 1 cyn y llall, un canlyniad yw efallai na fydd aliniad trawsffiniol am beth amser. At hynny, efallai ni chyflawnir aliniad trawsffiniol os caiff y pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 1 eu harfer mewn ffordd wahanol gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid ydym yn gwneud y sylwadau hyn fel beirniadaeth. Mae canlyniadau o'r fath yn anochel pan fydd gan lywodraethau'r DU yr hawl i ddeddfu ar gyfer eu priod wledydd.

**Casgliad 3.** Mae cyfiawnhad y Gweinidog dros fynd ar drywydd y darpariaethau hyn mewn perthynas â chadw primatiaid mewn Bil y DU i sicrhau bod gweithdrefnau gorfodi yng Nghymru a Lloegr wedi'u halinio, yn wan yn ein barn ni. Rydym hefyd o'r farn na fyddai defnyddio Bil ar wahân ar gyfer Cymru yn rhwystro alinio trawsffiniol, pe bai hynny'n cael ei ystyried yn briodol. Dylai'r Gweinidog fod yn fwy ystyriol wrth ddefnyddio alinio trawsffiniol fel cyfiawnhad dros fynd ar drywydd darpariaethau mewn Bil arfaethedig gan Lywodraeth y DU pan fydd y darpariaethau yn y Bil hwnnw yn caniatáu dargyfeirio.

**65.** Nodwn fod estyn y darpariaethau yn Rhan 1 ac Atodlenni 1 i 4 o'r Bil hefyd yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, yng nghymalau 3 a 22, ac ym mharagraffau 1 a 3 o Atodlen 1.

---

<sup>25</sup> Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diogelwch Adeiladau

---

**66.** Rydym yn cydnabod bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 3 (sy'n pennu safonau ar gyfer rheoli a gofalu am brimatiaid a gedwir o dan drwyddedau).

**67.** Fel y nodir uchod ym mharagraff 62, mae'r pŵer i wneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion Cymru yng nghymal 22 yn eang iawn. Rydym yn nodi y bydd rheoliadau o'r fath yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

**Casgliad 4.** Er ein bod yn cydnabod bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn eu hystyried yn briodol cyn arfer y pŵer yng nghymal 22, nid yw'n gallu cymryd lle mewn modd digonol na phriodol y gwaith craffu cynhwysfawr a fyddai'n digwydd yn y Senedd pe bai cynigion o'r fath yn cael eu cynnwys mewn Bil i Gymru.

### **Sylwadau penodol yn ymwneud â gwelliannau a wnaed i Ran 2 o'r Bil**

---

**68.** Nodwn y gwelliannau a wneir i gymal 38 yn y Bil.

**69.** Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad yn ystod sylwadau mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil, rydym yn cydnabod bod gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a yw Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â mater datganoledig.

**70.** Fel y nodwyd uchod yng nghasgliad 1, rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.

**71.** Mae'r anghydfod rhwng y Llywodraethau yn anffodus, a dweud y lleiaf. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog yn aros am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth y DU o ran ei dehongliad ynghylch pam mae'r darpariaethau perthnasol yn Rhan 2 yn ymwneud â materion datganoledig. Er ein bod yn gobeithio y bydd trafodaethau rhynglywodraethol cadarnhaol yn dilyn a bod y mater yn cael ei ddatrys yn fuan, nid ydym yn glir a aethpwyd ar drywydd yr anghytundeb drwy'r strwythurau rhynglywodraethol newydd yn unol â chanlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, gadarnhau a yw'r anghytundeb ynglŷn â Rhan 2 o'r Bil wedi cael ei godi a'i drafod o fewn y strwythurau rhynglywodraethol newydd ac, os nad yw, dylai'r Gweinidog gadarnhau:

- sut y bydd yn codi'r mater o fewn y strwythurau rhynglywodraethol perthnasol newydd,
- a fydd yn codi anghydfod drwy'r broses rynglywodraethol newydd ar gyfer datrys anghydfodau ac, os na fydd, pam hynny.

---

## Sylwadau penodol yn ymwneud â gwelliannau a wnaed i Ran 3 o'r Bil

---

**72.** Nodwn fod gwelliannau wedi'u gwneud i gymalau 40, 42, 45, 46, a 49 o'r Bil.

**73.** Roedd Argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i ni am ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o gymal 46 o'r Bil, o ystyried bwriad Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r pwerau yn y cymal i wneud rheoliadau at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd. Fe wnaethom ofyn hefyd i'r Gweinidog gadarnhau a oedd yn ymwybodol o gynigion Llywodraeth y DU yn hyn o beth, ac a oedd yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

**74.** Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd cynigion i gyflwyno mesurau mewn rheoliadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn fanylach bryd hynny. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi cadarnhau y byddai angen ystyried asesiad o'r effaith, a fyddai'n cynnwys gwerthusiad o unrhyw rwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd, mewn perthynas â'r cynigion manwl ac y byddai hyn yn cael ei wneud ar lefel Prydain Fawr cyn cyflwyno unrhyw gyfyngiadau drwy reoliadau. Rydym hefyd yn cydnabod bod y Gweinidog wedi datgan y byddai cynigion mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad a/neu ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid cyn eu cyflwyno.<sup>26</sup>

**75.** Nodwn fod cymal 48 yn gymal newydd yn y Bil sy'n diwygio *Deddf Lles Anifeiliaid 2006* i estyn darpariaethau ynghylch terfynau amser ac arolygwyr i ddarpariaethau mewn perthynas â rheoliadau o dan y Ddeddf honno, yn ogystal â darpariaethau o dan y Ddeddf ei hun.

**76.** Yn benodol, nodwn bod y gwelliannau a wnaed i gymal 49 yn creu swyddogaethau cydredol newydd.

**77.** Mae Llywodraeth Cymru yn gwybod am ein pryderon ynghylch creu pwerau cydredol newydd, gan gynnwys ein pryderon o ran egwyddor ynghylch gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer pwerau gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, yn ogystal ag effaith ymarferol hyn ar Weiniogion Cymru yn ceisio gwneud rheoliadau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol y byddai cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun yn gweithredu fel cam unioni sylweddol ar gyfer materion o'r fath.

**78.** Rydym yn cydnabod datganiad y Gweinidog na fyddai Llywodraeth Cymru fel arfer am weld creu swyddogaethau cydredol newydd. Rydym yn cydnabod ymhellach fod y Gweinidog, drwy gymal 51, wedi sicrhau gwelliant pellach i'r Bil er mwyn datgymhwyso cyfyngiadau penodol

---

<sup>26</sup> Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 24 Tachwedd 2021



yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006 mewn perthynas â swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Bil (gweler yr adran nesaf am ragor o fanylion).

### **Sylwadau penodol yn ymwneud â gwelliannau a wnaed i Ran 4 o'r Bil**

---

**79.** Nodwn fod gwelliannau i Ran 4 o'r Bil a restrir ym Memorandwm Rhif 2 yn rhoi pŵer newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru yng nghymalau 50 a 53.

**80.** Yn benodol, rydym yn nodi bod cymal 50 yn cynnwys pŵer Harri VIII eang y gellir ei arfer, yn rhinwedd y gwelliannau, ar yr un pryd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff rheoliadau a wneir o dan gymal 50 ddiwygio, diddymu neu ddirymu darpariaeth a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a gaiff ei phasio neu ei gwneud cyn diwedd y sesiwn y caiff y Bil ei basio ynddi.

**81.** Fel rydym yn ei nodi uchod ym mharagraff 77, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'n pryderon ynghylch pwerau cydredol ym Miliâu'r DU.

**Casgliad 5.** Nid yw'n eglur i ni sut y gellir defnyddio pwerau cymal 50. Mae hyn nid yn unig yn dwysáu ein pryderon ynghylch cymal 50 ei hun, mae hefyd yn ategu ymhellach y ddadl y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflwyno ei Bil ei hun a fyddai wedi bod yn destun craffu trylwyr, llinell-wrth-linell gan y Senedd.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bo modd a chyn y cynhelir dadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion llawn am sut y gellir defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 50 o'r Bil, a sut maent yn debygol o gael eu defnyddio.

**82.** O ran cymal 51 o'r Bil, rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau 'eithriad' o ran yr angen i Weinidog y Goron roi cydsyniad yn y dyfodol mewn cysylltiad â'r trefniadau ar gyfer rhoi cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006. Mae hyn i'w groesawu.

**83.** Fodd bynnag, fel y nodir uchod yng nghasgliad 1, nid yw'n eglur i ni pam mae'r Gweinidog o'r farn nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymal 51 o'r Bil.

**Casgliad 6.** Mae cymal 51 yn diwygio Atodlen 7B i Ddeddf 2006 ac yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O'r herwydd, rydym o'r farn, yn unol â Rheol Sefydlog 29.1(ii), fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 51 o'r Bil.

**Argymhelliad 4.** Dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 51 o'r Bil.

**84.** Nodwn fod cymal 52 yn cyflwyno darpariaeth newydd ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Bil, ar ôl ei ddeddfu.

**85.** Fel y nodir uchod ym mharagraffau 63 a 64, rydym yn cydnabod bod y gwelliannau i gymal 53 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i gychwyn Rhan 1 o'r Bil mewn perthynas â Chymru.

**86.** Am y rhesymau rydym yn eu nodi uchod ym mharagraffau 63 a 64, rydym o'r farn bod bwriadau'r Gweinidog o ran pryd mae'n bwriadu cychwyn Rhan 1 o'r Bil yng Nghymru (pe bai'r Bil yn dod yn Ddeddf) yn berthnasol i drafodaethau'r Senedd ynghylch a ddylai roi cydsyniad deddfwriaethol.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bo modd a chyn y cynhelir dadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau ei bwriad o ran pryd y bydd Rhan 1 o'r Bil (pe bai'n dod yn ddeddf) yn cael ei gychwyn ar gyfer Cymru, ac a yw'r dyddiad arfaethedig yr un un â'r dyddiad y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei ddefnyddio yn Lloegr.